# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20




**Cymeradwywyd gan y Cyngor 10 Medi 2020**

# Cynnwys


1. Cwmpas y cyfrifoldeb 3
2. Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu 4
3. Llwyddiannau llywodraethu corfforaethol 2019-20 6
4. Lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi 10
5. Y materion a bennwyd y llynedd (2019-20) 14
6. Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2020-21 19
7. Casgliad 21
8. Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 21

# 1 Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar yr Awdurdod hefyd i wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn gwella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau'n barhaus, gan roi sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'n rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu ac i gyhoeddi amcanion llesiant er mwyn iddynt gyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.

Pan fydd yn cyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes ac i hwyluso camau i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risgiau.

Cafodd Fframwaith Llywodraethu ei baratoi yn 2010 ac fe'i hadolygwyd yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Caiff y fframwaith ei ddefnyddio i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Yn sgil yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cafodd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017. Diwygiwyd y Cod Llywodraethu Lleol a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arferion gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government.*

Bydd y Cod am 2020/21 yn cael ei hadolygu'n bellach i ystyried y newidiadau i lywodraethu oherwydd y pandemig coronafirws.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid

C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig

E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo

F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn

G: Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor graidd a'r is-egwyddorion a geir yn y fframwaith ac yn ein Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol.

Mae'r datganiad hwn hefyd yn bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## 2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r swyddogion yn glir. Mae Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdai ar gyfer aelodau/swyddogion gan gynnwys yr aelodau canlynol: Cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, bu i'r Swyddog Monitro; y Rheolwr Corfforaethol: Archwilio Mewnol; y Swyddog Adran 151; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad gymryd rhan hefyd. Yn ystod y gweithdai, cyflwynwyd pob ymddygiad a'i sgorio yn erbyn mecanwaith sgorio fel a ganlyn:

1/2 Annerbyniol – angen gweithredu ar frys

3/4 Yn is na boddhaol – angen gweithredu ar frys (o fewn 3-6 mis)

5/6 Boddhaol - angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)

| | |
|---|---|
| 7/8 | Derbyniol – efallai bod angen cymryd rhai camau |
| 9/10 | Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda ac yn bodloni'r arferion gorau – nid oes angen cymryd camau |

Cafodd yr adolygiad o effeithiolrwydd a gynhaliwyd ar lefel y swyddogion ei lywio hefyd gan reolwyr o fewn yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu. Fe'i seiliwyd hefyd ar sylwadau gan yr archwilwyr allanol, asiantaethau arolygu eraill, y Grŵp Arweiniol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol. Cyflwynwyd fframwaith yr adolygiad gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2019.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu'n seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac arolygiadau mewnol ac allanol
- Rheolaethau ariannol
- Rheoli risg a pherfformiad
- Safonau moesegol a chyfreithiol
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac uwch-reolwyr eraill, gan gynnwys y Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro
- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol a'r dull o sgorio a chasglu tystiolaeth yn flynyddol. Cafodd yr adolygiad diwethaf o Fframwaith 2018/19 dyddiedig 22 o Fai 2019 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 o Orffennaf 2019, gyda sicrwydd uchel bod system da o graffu a chadarn mewn lle. Mae adolygiad 2019/20 dal ar waith, oherwydd y pandemig.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, a ddefnyddir i gyfarwyddo ac i reoli'r awdurdod a'i waith, yn ogystal â rhoi cyfrif i'r gymuned, ymgysylltu â hi, a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r camau i gyflawni ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol costeffeithiol.

Mae'r system rheoli mewnol yn rhan bwysig o'r cod a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly ni all ond roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus i bennu ac i flaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk

## 3 Llwyddiannau llywodraethu corfforaethol 2019-20

Mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau a ganlyn, amlinellir llwyddiannau llywodraethu corfforaethol 2019-20.

A. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Bu’r Cyfansoddiad yn destun rhagor o waith monitro ac adolygu yn ystod 2019-20 a chyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig ar wefan y Cyngor ym mis Mehefin 2019. Bydd nawr angen adolygiad pellach o hwn.
- Cafodd CeriNet ei datblygu i gynnwys gwybodaeth i weithwyr newydd, y Llawlyfr Gweithwyr, y Pecyn Adnoddau i Reolwyr Corfforaethol a Phenaethiaid a mynediad i staff i drefnu gwybodaeth a chyfleoedd o ran Dysgu a Datblygu.
  Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19 ar 31 Hydref 2019 gan gynnwys adolygiad o’r Amcanion Llesiant.
- Cyflwynwyd yr Archwiliad o Foeseg a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2019.
- Mae hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ar recriwtio a dethol gan gynnwys cyfleoedd cyfartal yn orfodol i bob un o reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

B. Sicrhau ei fod yn agored a’i fod yn ymgysylltu’n helaeth â rhanddeiliaid:

- Cwblhawyd arolwg Helpwch Ni i’ch Helpu Chi i roi llais i’r dinasyddion ynglŷn â darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Penodwyd Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu i gydlynu’r Polisi Ymgysylltu a’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Mae pob ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor
- Hyrwyddir yr ymgynghoriadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol.
- Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19 ar 31 Hydref 2019.
- Ni wnaeth Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella.
- Cymeradwyodd y Cyngor y Protocol ar gyfer Rhoi Hawl i Aelodau’r Cabinet Fynychu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (Rhan 5, Dogfen M2, y Cyfansoddiad).
- Diweddarwyd templed yr adroddiadau i’r Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at y goblygiadau cyfreithiol, y goblygiadau o ran staffio, y goblygiadau o ran eiddo / asedau a risgiau.

- Cynhaliwyd adolygiad o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 2019 a chraffwyd ar y gwaith hwn.
- Gweithiwyd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Paratowyd cyfres o gwestiynau a fframwaith ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd ac o ganlyniad i hynny, cafwyd adborth oddi wrth bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

- Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19 ym mis Hydref 2019.
- Paratowyd pecyn adnoddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Cymeradwyodd y Cyngor y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau ynghyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.
- Cafodd hyfforddiant Rheoli Risgiau ei gyflwyno i'r Aelodau a'r Uwch Reolwyr a bydd pecyn e-ddysgu yn cael ei ddatblygu ar gyfer y swyddogion a'r staff.
- Caiff y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag arbedion yn y gyllideb a gwaith y Grŵp Datblygu eu hadrodd i'r Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd Trawsbleidiol.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau a ganlyn i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith:
  - Paratoi amcanion llesiant a gwella a datganiad Llesiant
  - Cynnwys y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes
  - Rhoi offeryn Asesu Effaith Integredig newydd ar waith
  - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad a'i ddiweddaru yn ôl yr angen
  - Cwblhau asesiad llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Mae'r Offeryn a'r canllawiau ynghylch Asesu Effaith Integredig ar gael a chânt eu defnyddio i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig:

- Mae'r offeryn a'r canllawiau ynghylch Asesu Effaith Integredig ar gael ac mae'r hyfforddiant wedi'i gyflwyno fesul cam ar gyfer y swyddogion a'r Aelodau
- Mae Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol ar waith er mwyn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni

- Mae grŵp rheoli prosiectau corfforaethol wedi'i sefydlu i ffurfioli'r gwaith o ddatblygu a rheoli prosiectau.
- Mae adolygiad o Brosiectau ar y Cyd ar y gweill. Mae'r adolygiad yn cynnwys adran am asesu risgiau ar draws prosiectau cydweithredol.

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo:
- Hyfforddiant i'r Aelodau:
    - Hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r Cyfryngau: Sut mae delio â'r cyfryngau mewn argyfwng
    - Hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r Cyfryngau: Dosbarth meistr mewn sgiliau darlledu gan gynnwys cyfweliadau teledu 'byw'
    - Gweithdy Rheoli Prosiectau Corfforaethol a Thrawsnewid
    - Gwasanaeth Gofalwyr
    - Ymwybyddiaeth ynghylch Sgamiau
    - Gweithdai Hybu'r Economi
    - Gweithdy i drafod y Model Darparu newydd
    - Hyfforddiant ynghylch craffu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion
    - Hyfforddiant cynefino llawn ar gyfer Cynghorydd newydd
    - Gweithdy Asesiad o Effaith Brexit ar Geredigion
    - Profiad Bws Dementia
    - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
    - Gweithdy'r Gyllideb (i'w gynnal ym mis Ionawr 2020)
    - Hyfforddiant Rheoli Risgiau
    - Ymwybyddiaeth ynghylch y Llinellau Cyffuriau
    - Hyfforddiant ynghylch y Cyfryngau Cymdeithasol
    - Mae modiwlau E-ddysgu hefyd ar gael i bob Aelod
- Trothwyon Diogelu: Cafodd Rhaglen Rheolwyr Ceredigion ei datblygu a'i rhoi ar waith. Rhaid i bob rheolwr gwblhau 6 chwrs gorfodol. Mae amrywiaeth o gyrsiau dewisol hefyd wedi'u datblygu.
- Bydd carfan arall o reolwyr yn ymgymryd â Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheoli Lefel 4 yr ILM yn ystod 2019/2020.
- Mae Uwch Reolwyr wedi parhau i fynd i ddigwyddiadau Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol drwy'r flwyddyn gan gynnwys Ysgol Haf Academi Cymru.
- Datblygwyd cynllun prentisiaethau yn 2018/19. Mae'r grŵp cyntaf o 5 prentis wedi'u cymhwyso ac maent wedi llwyddo i sicrhau gwaith. Bydd yr ail garfan yn dechrau yn ystod hydref 2019 a bydd un cyfle am gymhwyster Lefel 3 yn cael ei ychwanegu.
- Datblygwyd panel cymwysterau corfforaethol. Diben y panel yw ystyried ceisiadau gan weithwyr am unrhyw gymwyster neu ddyfarniad y maent yn dymuno ymgymryd â nhw fel rhan o'u llwybr gyrfa neu

ddatblygiad proffesiynol. Bydd hyn yn sicrhau bod mynediad at gyllid a chefnogaeth yn cael ei rhannu'n deg ar draws y sefydliad.

- Caiff y modiwlau dysgu a datblygu a rheoli perfformiad eu rhoi ar waith o fewn CeriNet
- Mae nifer o gyrsiau hyfforddi ar gyfer staff ar gael ar-lein drwy fodiwlau e-ddysgu.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno i gyflogi Swyddog Iechyd a Llesiant y Gweithwyr er mwyn cydlynu a hybu iechyd a llesiant o fewn y gweithlu.
- Mae Cynllun Gweithlu 2017-2021 yn nodi pedair thema:
  - Ymgysylltu a Chyfleoedd
  - Gweithlu hyblyg ac ystwyth
  - Hyrwyddo gweithlu dwyieithog a fydd yn gwasanaethu'r gymuned
  - Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

  Mae'r cynnydd a wneir o ran y camau gweithredu yn y cynllun yn dda.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn:

- Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd wythnosol y Grŵp Arweiniol a chaiff y gofrestr ei chyflwyno i bob Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r risgiau presennol a'r rhai yn yr hirdymor y cyflwynir gan y pandemig wedi'u casglu ynghyd ac wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol o dan RO18 fel y gellir eu monitro'n rheolaidd gan y Grŵp Arweiniol yn ogystal a'r Pwyllgor Archwilio.
- Cymeradwyodd y Cyngor y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau ynghyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.
- Caiff yr holl Risgiau Corfforaethol eu dyrannu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Risgiau yw'r sail ar gyfer rhaglenni gwaith archwilio yr Adain Archwilio Mewnol fel sy'n ofynnol gan y system Pentana/MKI.
- Cafodd templed adroddiadau'r Cabinet ei ymestyn i gynnwys y risgiau a'r goblygiadau sy'n codi.
- Cyhoeddwyd adroddiad perfformiad Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19 ym mis Hydref 2019.
- Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei diweddaru a'i chymeradwyo ym mis Chwefror 2018.
- Cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol ym mis Mawrth 2018.
- Gweithredwyd ail-strwythyr o'r Adain Archwilio Mewnol yn Mai 2019. Roedd yr Adain wedi'i adnoddu'n llawn hyd Ionawr 2020.
- Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.
- Cyhoeddir adroddiadau blynyddol gan gynnwys:
  - Adroddiad Blynyddol yr Amcanion Llesiant a Gwella (Hydref 2019)

- Datganiad Ariannol Blynyddol yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Medi 2019)

G. Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gweddarlledu.
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar waith.
- Caiff y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei harwain gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sydd â chymwyster CIPFA. Mae ganddi gryn brofiad o lywodraeth leol. Caiff ei chefnogi gan dîm sydd â’r wybodaeth a’r sgiliau priodol. Mae tri aelod o’r staff yn astudio ar hyn o bryd am gymwyster y Sefydliad Archwilwyr Mewnol ac mae dau aelod o staff yn datblygu sgiliau archwilio ym maes TGCh.
- Mae’r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn.

## 4 Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae’r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol fel arfer yn paratoi Adroddiad Blynyddol a gyflwynir i’r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin. Mae’r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chydganlyniadau’r adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae’n rhoi’r farn archwilio gyffredinol o ran sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwn. Mae’r sicrwydd a ddarperir hefyd yn rhoi sylw i’r cynnydd a wneir o ran rhoi’r gwelliannau ar waith, ystyried y gofrestr risgiau a’r sicrwydd a ddarperir yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr archwilwyr allanol. Rhoddir manylion yn yr adroddiad ynghylch cwmpas y gwaith archwilio a’r angen i ailflaenoriaethu drwy’r amser i sicrhau bod y gwaith a wneir o ran sicrwydd yn ddigonol. Cafodd y Pwyllgor Archwilio o 1 Ebrill 2020 ei ohirio oherwydd y pandemig, a achosiodd oedi yng nghymeradwyo’r adroddiadau Archwilio Mewnol blynyddol. Bydd rhain bellach yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar 7 o Hydref 2020. Mae’r RCAM wedi diweddaru Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio o sefyllfa yr Adain yn reolaidd trwy gydol yr adeg yma.

Ni wnaeth Archwilio Cymru (AC) nodi unrhyw wendidau mawr yn rheolaethau mewnol y Cyngor yn ISA260 2018-19. Er hynny, nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro’r camau sydd angen eu cymryd yn y gwasanaeth oherwydd yr absenoldebau hirdymor a thymor byr a fu yn yr Adain yn y gorffennol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi bod yn destun adolygiad gan (AC) er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'u gwybodaeth a chyda deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol a'r dull o sgorio a chasglu tystiolaeth fel y nodir ym mhwynt 2 uchod.

Mae’r Adain Archwilio Mewnol yn cynnal hunanasesiad blynyddol o’r gwasanaeth gan ddefnyddio templed Nodiadau Cymhwyso LlL CIPFA ar ddiwedd pob blwyddyn

a oedd yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid yn ystod 2016-17. Y bwriad yw ailadrodd yr asesiad allanol hwn bob 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a chânt eu hadolygu yn flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol. Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion y PSIAS er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn medru monitro'r cynnydd a wneir gan y gwasanaethau.

Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2019/20, dyddiedig 25 o Fehefin 2020, yn seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020, a
- derbyn y camau a gymerwyd gan y rheolwyr (yn enwedig y rheini a ystyrir yn sylweddol),

fod dal gan Gyngor Sir Ceredigion fframwaith boddhaol ar waith o ran llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaethau mewnol i reoli'r modd y cyflawnir amcanion y sefydliad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol 2019/20 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 7 o Hydref 2020, fel y nodir uchod.

Mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yn gweithredu fel yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ac mae ganddo gyfrifoldeb hefyd dros Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Mae Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd e.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, ynghyd â Phenaethiaid TG, Cyfreithiol ac Adnoddau Dynol a rhai cynrychiolwyr o'r adrannau. Mae'r Fforwm yn cwrdd bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu yr Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG (ITSO) sy'n cynghori ynghylch diogelwch data ac ymgynghorwyr allanol sy'n cael eu cyflogi o bryd i'w gilydd i brofi trefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch.
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion IIRMO) sy'n cynghori ynghylch cydymffurfiaeth gyfreithiol gan sicrhau y cedwir at y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a gaiff ei adnabod yn fewnol fel y Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd yn chwarterol a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Cymorth Polisi (Dirprwy Gadeirydd - Pennaeth y Gwasanaethau TGCh a Chwsmeriaid).
- Cyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ogystal â hynny:

- ITSO yw is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- IRMO sy'n cadeirio Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae'r IRMO yn rhan o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn sgil yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, tybir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda ar y sail mai 7/8 oedd y sgoriau ar gyfartaledd.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu ymrwymiad y Cyngor i egwyddorion craidd fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government,* yn rhoi arweiniad i'r holl Aelodau a swyddogion ar yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas at y diben.

**Pandemig Coronafirws**

Oherwydd argyfwng y pandemig coronafirws, bu oll swyddfeydd y Cyngor ar gau i'r cyhoedd o 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys cododd o ganlyniad i'r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn sefyllfaoedd lle bernir bod y penderfyniad yn un brys ac o'r math y byddai unrhyw oedi yn gwneud niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd, mae Arweinydd y Cyngor wedi dirprwyo pwerau dros dro i Brif Weithredwr y Cyngor a'r Grŵp Arweiniol wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19.

Gwneir y penderfyniad yn unol â rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae copi o'r Cofnod o Benderfyniad Brys ar gael ar wefan y Cyngor.

Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso'r gwaith ac i ddarparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallau pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni ar gyfer y cyfnod addasu, er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelwyd yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach fyth, unrhyw gyfnodau o benllanw a ragwelir yn y dyfodol. Gweithredwyd hyn drwy dri cyfnod hyd yn hyn:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad oedd yn hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod cloi
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Byddai Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu wrth symud o'r ddau gyfnod cyntaf at bedwerydd cyfnod, sef cyfnod adfer. Er mwyn i hyn allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif gydran a fydd yn allweddol wrth ddelio â COVID-19 ochr yn ochr â llacio elfennau o'r cyfyngiadau'n ddiogel, mewn dull sydd wedi ei reoli ac sy'n strwythuredig. Y tair elfen yw:

**Cyfyngu + Ynysu + Dileu**

Gan fod cyfyngiadau'r 'cloi mawr' yn cael eu lleddfu'n raddol a Llywodraeth Cymru yn diwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor yn edrych ar sut a phryd y gellid ailgyflwyno gwasanaethau neu sut y cânt eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hyn mewn 'Cynllun y Ffordd Ymlaen' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd y sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn i'r sefyllfa fod yn eglur i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn y lle cyntaf, mae cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau cael eu hail-gyflwyno drwy lwyfan rhithwir.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd o bell wrth anfon e-bost i'r Gwasanaethau Democrataidd I gael manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyfarfodydd hefyd i'w gweld ar dudalen Facebook y Cyngor.

## 5 Y materion a bennwyd y llynedd (2019-2020)

Mae’r tabl isod yn cofnodi’r camau a gymerwyd yn ystod 2019-20 i ddatrys y materion a bennwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018-2019

| Mater | Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| (A1.3) Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill<br>Gweithred: Y Pwyllgor Archwilio i gynnal ymarfer meincnodi. | Bydd ymarfer meincnodi yn cael ei gynnwys ym mlaenraglen waith y Pwyllgor Archwilio. | CJ | Mawrth 2020 |
| (A2.2) Dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol<br>Gweithred: Dylid cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi a dylid paratoi cynllun gweithredu i ddarparu hyfforddiant yn 19/20 | Cyflwynwyd Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o Foeseg gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 17/7/19.<br>Dosbarthwyd holiadur ar gyfer staff yn e-bost ‘Newyddion Ceredigion’ ar 09-08-2019 er mwyn dadansoddi’r gofynion o ran hyfforddi.<br>Gofynnwyd am gyngor oddi wrth y Tîm Dysgu a Datblygu ynglŷn â pharatoi a chyflwyno’r modiwl hyfforddi (byddai hyn yn cael ei ddatblygu ar ôl i’r ymatebion i’r holiaduron gael eu dadansoddi.)<br>Modiwl hyfforddi wedi’i baratoi fel rhan o brosiect gan fyfyriwr ar leoliad. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 28/5/19.<br>Crynhoi modiwl electroneg wedi ei drafod gyda Tîm Dysgu a Datblygu 16/12/19. | AR | Mawrth 2020 |

| Mater | Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| (B1.1) Sicrhau diwylliant agored trwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored<br><br>Gweithred: Cwblhau'r adolygiad o'r cynllun cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth | Mae dudalen newydd am Ryddid Gwybodaeth yn fyw ar wefan y Cyngor.  Mae siart newydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth fanwl am y Model Gwasanaethau Integredig  newydd. Bydd hyn o gymorth i gwblhau'r Cynllun Cyhoeddi. Er hynny, mae cydweithrediad y Rheolwyr Corfforaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant. | MNH | Mawrth 2020 |
| (B1.4) Ymgynghori ac ymgysylltu yn ffurfiol ac yn anffurfiol i benderfynu ar yr ymyriadau/ffyrdd o weithredu mwyaf priodol ac effeithiol.<br><br>Gweithred: - Cyflawni camau i wella gweithgarwch ymgysylltu | Mae polisi ymgysylltu a phecyn cymorth i'w gweld ar fewnrwyd newydd Ceri net. Mae trydydd drafft y Polisi Ymgysylltu newydd *'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'* wedi'i baratoi. Bydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwyr Corfforaethol yn cymeradwyo'r polisi yn fuan cyn iddo fynd gerbron y Grŵp Arweiniol a thrwy'r broses wleidyddol.<br><br>Penodwyd Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu i gydlynu'r Polisi Ymgysylltu a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i roi cyngor ac arweiniad ynglŷn â pholisi. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi'i ddiwygio ar ffurf drafft. Cafodd y cynllun ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu priodol a'r Cabinet ac ymgynghorwyd â'r cyhoedd yn ei gylch rhwng 18/12/19 a 29/1/20. Bydd y drafft terfynol yn mynd gerbron y Cabinet ar 17/3/20. Ein bwriad yw cyhoeddi'r fersiwn derfynol erbyn 31/3/20. | MS | Mawrth 2020 |
| (B3.1) Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn | Mae adolygiad manwl o'r Polisi Ymgysylltu wedi dechrau. Bydd hyn yn amlinellu sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion. Bydd hyn yn | DD | Mawrth 2020 |

| Mater | Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| ymgynghori arnynt yn ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r darpar ganlyniadau.<br><br>Gweithred: – Cynnal adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned | nodi'r ffyrdd y byddwn ni'n cyflwyno gwybodaeth iddynt, yn ymgysylltu â hwy, yn eu cynnwys, yn cydweithio â nhw ac yn eu grymuso.<br><br>Mae trydydd drafft y Polisi Ymgysylltu newydd *'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'* wedi'i baratoi. Bydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwyr Corfforaethol yn cymeradwyo'r polisi yn fuan cyn iddo fynd gerbron y Grŵp Arweiniol a thrwy'r broses wleidyddol. Mae'r polisi yn seiliedig ar '*Sbectrwm Cyfranogiad Cyhoeddus'* Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r llwyfan ymgysylltu digidol '*Engagement HQ.'* | | |
| (B3.5) Cydbwyso adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar â grwpiau rhanddeiliaid eraill i sicrhau cynwysoldeb<br><br>Gweithred: Cysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill i sefydlu Arfer Orau | Bu inni weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd set o gwestiynau a fframwaith ymgysylltu ac arolygon ar y cyd ynghyd ag adroddiad dadansoddi. Cyfrannodd yr adroddiad at y gwaith o ddiwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br><br>Rydym yn adeiladu ac yn ehangu'r bartneriaeth ymgysylltu gyda'r Grŵp Ymgysylltu Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys rhannu gweithgareddau a gwybodaeth ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygu a chynyddu effeithlonrwydd gan gynnwys defnyddio llwyfannau ymgysylltu digidol megis Engagement HQ a Tractivity. | DD | Mawrth 2020 |
| (C1.5) Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu | Mae'r gwaith o adolygu'r Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol wedi'i wneud. Cafodd y Polisi a'r Strategaeth eu cymeradwyo gan y | CJ | Medi 2019 |

| Mater | Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br><br>Gweithred: Cwblhau'r Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg<br><br>Gweithred: (O 17-18) Cyflwyno system Rheoli Perfformiad a chyhoeddi data perfformiad gwasanaeth ar-lein gan gynnwys costau fesul gwasanaeth a data gwerth am arian. | Cabinet ar 24 Medi a darparwyd hyfforddiant i'r Aelodau a'r Swyddogion ym mis Ionawr 2020.<br><br>Cyflwynwyd y System Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn ystod 2018-19 a dechreuodd y drefn o adrodd ynghylch cynlluniau busnes 2018-19 ym mis Hydref y flwyddyn honno. Cafodd ymddiswyddiad y Swyddog Datblygu Cronfeydd Data yn gynnar yn 2019 effaith gan arwain at oedi o ran y gwaith datblygu. Fodd bynnag, mae swyddog newydd wedi dechrau ar ei waith ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran y tablau cyllid. Bydd hyn yn golygu y bydd modd cyhoedd data ynglŷn â chostau a gwerth am arian. | | Rhag 2019 |
| (D2.3) Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir<br><br>Gweithred: Y Pwyllgor Archwilio i dderbyn papur ar adolygiad o brosiectau cydweithio. Dilynir hyn gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwella. | Mae adolygiad o'r prosiectau cydweithredol wedi'i gynnal o dan gyfarwyddyd Sue Darnbrook, Cyfarwyddwr Corfforaethol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adran ynglŷn ag asesu risgiau ar draws y prosiectau cydweithredol. Cafodd canlyniadau'r adolygiad eu casglu a'u dadansoddi a chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 5 Chwefror. Byddant yn mynd gerbron y Cabinet ar 17 Mawrth 2020. | DD | Mawrth 2020 |
| (F3.4) Sicrhau bod sicrwydd ychwanegol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg | Roedd y gwasanaeth ar ôl ei ailstrwythuro yn weithredol ar 4/5/19. Roedd holl arfarniadau perfformiad blynyddol staff Archwilio Mewnol wedi'u gwneud erbyn 15/5/19. | AR | Mawrth 2020 |

| Mater | Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| a rheolaeth yn cael ei ddarparu gan yr archwilydd mewnol.<br><br>Gweithred: Sicrhau bod capasiti a galluogrwydd yn cael eu hystyried yn ystod ailstrwythuro'r Archwiliad Mewnol sydd ar fin digwydd. | Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Drafft 19/20 i'r Pwyllgor Archwilio ar 11/4/19 a chymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 19/20 ar 17/7/19.<br>Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gan yr adain archwilio mewnol a'r staff er mwyn monitro canlyniadau a pherfformiad.<br>Mae tri o staff yr adain archwilio wedi dechrau ar hyfforddiant cymwysterau proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ac mae dau wrthi'n gwella eu gwybodaeth am archwiliadau ym maes TGCh.<br>Un aelod o staff wedi gadael 31/1/2020. Trefniadau mewn llaw i sicrhau effaith lleiaf ar y gwasanaeth. | | |

Nodwch: Bydd unrhyw gamau nas cwblheir yn llawn erbyn y dyddiad cwblhau yn cael eu trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2019-20

## 6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2020-21

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* cafodd y materion a ganlyn eu pennu i'w datrys yn ystod 2020-21.

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r swyddogion yn ymddwyn ag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Bydd y Swyddog Monitro yn parhau i gynghori'r Aelodau ynglŷn â'r angen i ddatgan lletygarwch / rhoddion.<br>Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• cysylltiadau personol agos â swyddogion / Aelodau eraill<br>Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal cyfarwyddiaethau pan gânt eu penodi i gyrff allanol.<br>Bydd y ffurflenni gollyngiadau ar gyfer yr Aelodau yn cael eu diweddaru. | Ymgorffori ymddygiad ag uniondeb ymhellach | EP | Mawrth 2021 |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredol safonol priodol drwy bolisïau a phrosesau a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Caiff Cofrestr o Gontractau ei chyhoeddi.<br>Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi.<br>Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch chwythu'r chwiban. Mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd.<br>Hyfforddiant moeseg / llywodraethu ei gynnig. | Ymgorffori'r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach | EP<br><br><br><br><br><br>AR | Mawrth 2021 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| (B1.1) Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth. | Arddangos ymrwymiad i fod yn agored | MNH | Mawrth 2021 |
| (B3.1) Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | Cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned gan gynnwys darpariaethau ynghylch y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Gwella ymgysylltu â'r gymuned | MS | Mawrth 2021 |
| (C1.5) Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael | Rheoli disgwyliadau Defnyddwyr y Gwasanaethau drwy gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y gwasanaethau gan gynnwys data am gostau a gwerth am arian. | Rheoli disgwyliadau defnyddwyr y gwasanaethau | CAJ | Mawrth 2021 |

## 7 Casgliad

Yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu, cafodd y cynnydd yn erbyn fframwaith newydd CIPFA/SOLAFE, *Delivering Good Governance Framework (2016),* ei fesur. Canfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Drwy lunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a dogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen, mae'n rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Caniataodd hyn i'r Cyngor ymateb yn gyflym i'r bygythiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi pennu nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2020/21 ac mae wedi'u nodi mewn cynllun gweithredu (gweler uchod). Dogfennir y gweithrediadau yn gwreiddio o achos y pandemig, fel y gweler yn addas.

## 8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion uchod i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn sicr y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol a bennwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd trwy gydol y flwyddyn 2019/20. Byddwn yn monitro'r camau i'w rhoi ar waith, a'r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Mae'n bosib bydd y pandemig yn atal rhai o'r camau, a caiff rhain eu cyfeirio a'u adrodd fel y gweler yn addas i'r Cyngor yn DLIB 2020/21.

Llofnod

Prif Weithredwr

Arweinydd y Cyngor